**PWYLLGOR CRAFFU PERFFORMIAD AC ADNODDAU CORFFORAETHOL**

Hysbysiad Penderfyniad – Cyfarfod o Bell, 20 Ionawr, 2022.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: Y Cynghorydd M.R. Wilson (Cadeirydd); Y Cynghorydd P. Drake (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr G.D.D. Carroll, G.A. Cox, R. Crowley, V.P. Driscoll, G. John, Dr. I.J. Johnson, S. Sivagnanam a J.W. Thomas

Hefyd yn bresennol: Cynghorwyr L. Burnett (Aelod Cabinet dros Addysg ac Adfywio), P.G. King (Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth) ac N. Moore (Arweinydd Gweithredol ac Aelod Cabinet dros Berfformio ac Adnoddau),

EITEM AGENDA 2. COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Rhagfyr, 2021 fel cofnod cywir.

EITEM AGENDA 3. DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

EITEM AGENDA 4. CH2 ADRODDIAD ABSENOLDEB SALWCH 2021/2022 (CYF) –

ARGYMHELLWYD –

(1) BOD Adroddiad Absenoldeb Salwch Chwarter 3 yn y dyfodol yn cynnwys manylion cymariaethau absenoldeb salwch ag Awdurdodau Lleol eraill.

(2) BOD yr adroddiad yn cael ei nodi a bod y Cabinet yn cael gwybod am y trafodaethau yn y cyfarfod.

(3) ESTYN llongyfarchiadau'r Pwyllgor ar yr holl waith a wnaed yn ystod y pandemig i'r Pennaeth Adnoddau Dynol a holl staff yr adran.

Rhesymau dros yr argymhellion

(1) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

(2) Er mwyn i'r Cabinet ei ystyried.

(3) Rhoi gwybod am werthfawrogiad y Pwyllgor.

EITEM AGENDA 5. ADRODDIAD CANOL TYMOR DIOGELU CORFFORAETHOL (CYF) –

ARGYMHELLWYD – BOD yr adroddiad yn cael ei nodi.

Rheswm dros yr argymhelliad

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

EITEM AGENDA 6. MONITRO REFENIW AR GYFER Y CYFNOD 1 EBRILL I 30 TACHWEDD 2021 (CYF) –

ARGYMHELLWYD – Y dylid nodi'r sefyllfa o ran Cyllideb Refeniw 2021/22 yr Awdurdod fel y'i cynhwyswyd yn yr adroddiad a chyfeirnod y Cabinet.

Rheswm dros yr argymhelliad

Gan ystyried cynnwys y geirda, yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

EITEM AGENDA 7. MONITRO CYFALAF AR GYFER Y CYFNOD 1 EBRILL I 30 TACHWEDD, 2021 (CYF) –

PENDERFYNWYD –

(1) NODI'R cynnydd a wnaed ar Raglen Gyfalaf 2021/22 fel y'I cynhwyswyd yn yr adroddiad a chyfeirnod y Cabinet.

(2) BOD gwerthfawrogiad y Pwyllgor o'r holl waith a wnaed yn cael ei estyn i'r Pennaeth Cyllid / Swyddog Adran 151 Dros Dro a holl staff yr adran.

Rhesymau dros yr argymhellion

(1) Gyda golwg ar gynnwys yr adroddiad, y cyfeiriad a thrafodaethau yn y cyfarfod.

(2) Rhoi gwybod am werthfawrogiad y Pwyllgor.

EITEM AGENDA 8. ARCHWILIO CYMRU: GWAITH PARTNERIAETH Y TRYDYDD SECTOR – CYNGOR BRO MORGANNWG (RG) –

PENDERFYNWYD –

(1) NODI'R canfyddiadau allweddol a ddeilliodd o adolygiad Archwilio Cymru o waith partneriaeth y Cyngor gyda'r trydydd sector (Atodiad A i'r adroddiad) ac ymateb y Cyngor i'r adolygiad a chynigion Archwilio Cymru ar gyfer gwella fel y nodir yn yr adroddiad.

(2) BOD sylwadau’r Pwyllgor fel y’u trafodwyd yn y cyfarfod yn cael eu cyfleu i gyfarfod Cydbwyllgor Cyswllt y Sector Gwirfoddol ar 7 Chwefror.

(3) BOD Adroddiad Blynyddol Gwasanaethau Gwirfoddol Morgannwg a gyflwynir i Gydbwyllgor Cyswllt y Sector Gwirfoddol yn cael ei adrodd yn flynyddol i’r Pwyllgor hwn hefyd a bod trefniadau’n cael eu gwneud i’r Pwyllgor hwn dderbyn yr adroddiad presennol ynghyd â chyflwyniad cyn mis Mai 2022.

(4) Y dylid cyfeirio’r adroddiad, gan gynnwys y sylwadau a drafodwyd yn y cyfarfod, i’r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ac wedi hynny i’r Cabinet i’w ystyried a’i gymeradwyo i’r camau gweithredu arfaethedig i fynd i’r afael â’r cynigion ar gyfer gwella.

Rhesymau dros yr argymhellion

(1) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a’r trafodaethau yn y cyfarfod.

(2) Rhoi gwybod i Gydbwyllgor Cyswllt y Sector Gwirfoddol am farn y Pwyllgor hwn.

(3) I’r Pwyllgor ei ystyried.

(4) Sicrhau bod y Cyngor yn ymateb yn briodol ac yn gweithredu meysydd i’w gwella fel y nodwyd gan Archwilio Cymru.

EITEM AGENDA 9. BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS BRO MORGANNWG – ASESIAD LLESIANT DRAFFT (RG) –

PENDERFYNWYD –

(1) NODI’R Asesiad Llesiant drafft a hysbysu’r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus o farn y Pwyllgor, fel y trafodwyd yn y cyfarfod, fel rhan o’r broses ymgynghori ffurfiol.

(2) BOD y cyflwyniad PowerPoint a ddarparwyd yn y cyfarfod, ynghyd â dolen i’r adroddiad, yn cael eu dosbarthu i holl Aeoldau’r Pwyllgor a’r Cyngor er gwybodaeth.

Rhesymau dros yr argymhellion

(1) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

(2) Er gwybodaeth i’r Aeoldau.